Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Profiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol

## Nodyn o Gyfarfod – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (GCPhEF)

Fel rhan o'i ymchwiliad i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, cyfarfu Jenny Rathbone AS, Cadeirydd, â Chris Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol GCPhEF yng Nghymru. Hefyd yn bresennol oedd 4 swyddog o GCPhEF ac 1 o Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o nifer o faterion a oedd wedi codi yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor:

- Diffyg cyffredinol cymorth ar ôl rhyddhau a ddangoswyd drwy enghreifftiau cyffredin yn CEF Styal a CEF Eastwood Park;
- Diffyg llety addas i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, gan gynnwys mangreoedd a gymeradwywyd;
- Mynediad at iechyd, gan gynnwys darpariaeth Buvidal;
- Dryswch ynghylch cymhwysedd ar gyfer rhyddhad ar drwydded dros dro a'r diffyg gwybodaeth a roddir yn ystod y cyfnod cynefino cychwynnol;
- Diffyg ymwybyddiaeth ynadon am y Glasbrint;
- Materion parhaus ynghylch dedfrydau byrion (yr arhosiad cyfartalog yw 42 ddiwrnod yn CEF Eastwood Park);
- Diffyg cyfleoedd i fenywod gymryd rhan mewn cynlluniau dedfryd gymunedol sydd ar gael i ddynion. Pam nad oes un i fenywod, gan gynnwys cynlluniau sy'n addas i'r rhai sydd â phrofiad o drais domestig?
- Penderfyniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer Canolfan Merched Gogledd Cymru;
- Diffyg adroddiadau cyn dedfrydu manwl.

### Gweithredu a chynnydd y Glasbrint

Gwnaeth Chris Jennings y pwyntiau a ganlyn am weithredu a chynnydd y Glasbrint:

- Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi'i uno ers naw mlynedd yng Nghymru, nid yw hyn wedi digwydd o hyd yn Lloegr
- Mae perthynas dda rhwng GCPhEF a Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn ystod y pandemig roedd GCPhEF yn anfon diweddariadau dyddiol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.
- Mae bylchau o hyd yn y cymorth a gynigir i fenywod; mae rôl i GCPhEF yn ogystal â sefydliadau eraill (e.e. iechyd meddwl, y llysoedd a'r ynadon) wrth fynd i'r afael â'r rhain.
- Mae arwyddion o gynnydd yn sgil y gwaith da sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Er nad yw data'n cael eu cyhoeddi, mae gwybodaeth rheoli allweddol fewnol yn dangos bod llai o fenywod yn cael dedfrydau o garchar. Dywedodd Chris Jennings y byddai'n edrych a oes modd rhannu'r data hyn â'r Pwyllgor.

## Cymorth a llety ar ôl rhyddhau

- Dywedodd Chris Jennings nad oedd wedi'i syfrdanu gyda'r enghreifftiau y tynnwyd sylw atynt gan Gadeirydd menywod na chynigiwyd llety addas iddynt ar ôl eu rhyddhau o CEF Styal ac Eastwood Park. Nid yw'n rheoli'r carchardai hynny ond cadarnhaodd ei fod yn cyfarfod â'r Llywodraethwyr i drafod y materion amrywiol sy'n ymwneud â chymorth ar ôl rhyddhau.
- Mae GCPhEF yn casglu data ar nifer y menywod a oedd yn ddigartref ar adeg eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn aml yn datgelu'r sefyllfa go iawn y mae menywod yn eu hwynebu a gallai amcangyfrif yn rhy isel nifer y menywod y dylid ystyried eu bod yn ddigartref, er enghraifft y rhai sy'n cael eu rhyddhau ac yn cysgu ar soffa rhywun. At hynny, nid yw'r data'n datgelu achlysuron pan fydd menywod yn dewis mynd yn ôl at bartneriaid camdriniol. Mae GCPhEF hefyd yn casglu data ar lety wyth wythnos ar ôl eu rhyddhau a dadleuwyd bod hyn yn arwydd gwell o'u sefyllfa o ran tai. Bydd GCPhEF yn ceisio sicrhau bod y data hyn ar gael i'r Pwyllgor.
- Wrth ymateb i'r diffyg mangreoedd a gymeradwywyd, dywedodd Chris Jennings yr hoffent gael un yng Nghymru. Mae mangreoedd a gymeradwywyd ym Mryste, ond esboniwyd y bernir bod y rhan fwyaf o fenywod yn risg isel ac mae mangreoedd a gymeradwywyd yn bennaf i bobl y bernir eu bod yn risg uchel ar ôl eu rhyddhau. Dadleuodd fod y rhan fwyaf o fenywod yn agored i niwed yn hytrach na bod yn risg. Felly, mae arnynt angen llety â chymorth. Er mwyn diwallu anghenion menywod Cymru dadleuwyd y dylent allu cael mynediad at fangreoedd a gymeradwywyd a llety â chymorth. Esboniodd Nicola Davies fod llawer o fenywod yn mynegi ofn mynd i fangre a gymeradwywyd a dywedodd fod angen mwy o waith i wella'r canfyddiad sydd ganddynt o'r math hwn o ddarpariaeth.
- Dadleuwyd mai'r cam mwyaf effeithiol i atal dedfryd fer o garchar fyddai'r cynllun peilot Canolfan Breswyl i Fenywod ac y byddai'n wych ei hychwanegu at y system. Hysbysodd Chris Jennings y Cadeirydd fod GCPhEF, yn sgil y cais cynllunio, bellach yn ystyried cyflwyno apêl gynllunio. Wrth fyfyrio ar y gwaith a wnaed i baratoi'r cais gwreiddiol, cydnabu y gellai mwy fod wedi'i wneud i ymgysylltu â'r gymuned ond mae modd dadlau a fyddai hynny wedi newid y canlyniad o ystyried barn y gymuned.
- Yn y dyfodol, mae GCPhEF yn gweithio ar gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu llety am 84 o ddiwrnodau. Bydd hyn yn rhoi amser i awdurdodau lleol ddod o hyd i lety mwy cynaliadwy. Dywedwyd bod y cynnydd yn araf a datgelwyd na fu rhai awdurdodau lleol yn barod, er enghraifft nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cytuno; ond ystyriwyd bod hyn yn ymateb dealladwy o gofio'r pwysau presennol ar y stoc dai. Mae GCPhEF wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yn ddiweddar, gan roi mis

arall iddynt ymateb. Os na fyddant yn cofrestru, bydd GCPhEF yn ymgysylltu â'r sector preifat yn yr ardaloedd hyn. Nid yw hyn yn ddymunol gan y bydd yn creu cystadleuaeth gyda'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, blaenoriaeth GCPhEF yw sicrhau bod menywod yn cael llety addas ac na fyddant yn ddigartref ar ôl eu rhyddhau. Mae atebion eraill yn cynnwys trafodaethau â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a sefydliadau (fel yr eglwys) i weld a oes ganddynt dir y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tai modiwlar (menter sydd wedi'i defnyddio i roi llety i ddynion ar ôl eu rhyddhau).

## Mynediad at gyflogaeth

- Gall cymorth cyflogaeth (er nad yw bob amser yn brif flaenoriaeth i fenyw) fod yn anodd o gofio lleoliad carchardai menywod (yn Lloegr).
- Nododd Chris Jennings fod gwth ar gyflogaeth dan gyfarwyddwyd y Dirprwy Brif Weinidog. Erbyn hyn, mae gan bob carchar yng Nghymru fwrdd cyflogaeth sy'n dod â chyflogwyr at ei gilydd ac mae cyfleoedd i wneud yr un peth i fenywod.

## Mynediad at ofal iechyd

- Cytunodd Chris Jennings yr hoffient i'r cyffur Buvidal fod ar gael i fenywod Cymru, ond nid yw ar gael ar y GIG yn Lloegr ar hyn o bryd.
- Yn gyffredinol, cytunodd na ddylai menywod o Gymru fod dan anfantais na chael llai na menywod o Loegr. Defnyddiwyd addysg Gymraeg a'r gwasanaeth Ymweld â Mam fel enghreifftiau i dynnu sylw at achosion lle roedd menywod Cymru yn cael mwy na charcharorion Lloegr.

## Paratoi at ryddhad

Gwnaeth y Cadeirydd y pwynt y dylai paratoi at ryddhad ddigwydd ar ddiwrnod cyntaf dedfryd o garchar:

- Mae GCPhEF wedi trafod y mater hwn â menywod sy'n dweud nad ydynt am gael gormod o wybodaeth ac mai rheoli eu hanghenion iechyd yw'r flaenoriaeth gyntaf oll.
- Esboniwyd y dyrennir rheolwr carcharorion neu reolwr troseddwyr prawf i'r holl garcharorion pan fyddant yn dechrau eu dedfryd a fydd yn eu cefnogi drwy'r broses.

## Rôl ynadon

- Wrth fyfyrio ar ganfyddiadau arolwg y Gymdeithas Ynadon a nododd nad oedd 50 y cant yn ymwybodol o'r Glasbrint, cyfeiriodd Chris Jennings atynt fel sefydliad aelodaeth yn debyg i undeb ac, felly, nad yw'n gynrychioliadol o'r holl ynadon yng Nghymru.
- Fodd bynnag, nododd fod angen mwy o waith ac esboniodd y cyflwynwyd hyfforddiant/ymwybyddiaeth i fwy na 200 o ynadon a dywedir y cafodd hynny ei groesawu. Bydd nodyn arall o'r digwyddiadau hyn yn cael ei roi i'r Pwyllgor.

## Canolfannau Menywod

Gofynnodd y Cadeirydd i GCPhEF am ei farn am benderfyniad diweddar Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru y bydd cyllid ar gyfer darparu prosiect braenaru i fenywod o Ganolfan Merched Gogledd Cymru yn symud, yn lle hynny, i Checkpoint Cymru.

- Soniodd GCPhEF fod gwaith Canolfan Merched Gogledd Cymru yn wych a dywedodd nad oedd yn cefnogi penderfyniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i dynnu cyllid yn ôl. Cadarnhaodd ei fod wedi bod mewn trafodaethau ag ef am y penderfyniad hwn.
- Yn ogystal â'r adnodd yma yn y gogledd, cyfeiriodd Chris Jennings at y ganolfan adrodd i fenywod yn unig y mae GCPhEF yn ei chynnig yn Wrecsam.
- Cafodd y Cadeirydd wybod bod The Nelson Trust wedi dechrau darparu cymorth yn ei chanolfan newydd ar Heol Richmond, Caerdydd, yn ddiweddar ac y bydd agoriad ffurfiol yn cael ei gynnal ar 16 Ionawr am 11am.

## Adroddiadau cyn dedfrydu

- Esboniwyd bu gwth mawr am 'adrodd ar y diwrnod' ac am 'gyfiawnder buan', gan arwain at gwblhau adroddiadau cyn dedfrydu ar y diwrnod. Mae'r terfyn amser hwn yn cyfyngu ar y manylion y gall gweithiwr prawf eu rhoi ac mae gwaith ar droed i gryfhau adroddiadau cyn dedfrydu, yn enwedig i fenywod pan fo angen dogfennu trawma ac effaith dedfrydu ar blant.
- Dadleuwyd nad yw dedfrydau byrion yn helpu a bod angen cyfleu hyn i ddedfrydwyr sydd, o bosibl, yn teimlo y bydd menywod yn gallu cael yr help angenrheidiol gan y sefydliadau amrywiol os byddant yn cael dedfryd o 5-10 diwrnod.